# Cig/dofednod Halal

15 Mai 2018

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 17 Ebrill, pan wnaethoch ofyn:

*Rwy'n ysgrifennu atoch o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i ofyn am y wybodaeth ganlynol:*

1. *Nodwch pa un, os oes un, o'r sefydliadau arlwyo ar ystâd y Cynulliad sydd ar hyn o bryd yn cynnig cig/dofednod halal fel opsiwn i gwsmeriaid?*
2. *Nodwch pa un, os oes un, o'r sefydliadau arlwyo ar ystâd y Cynulliad sydd ar hyn o bryd yn cynnig cig/dofednod halal yn unig ar gyfer cwsmeriaid?*
3. *Nodwch pa un, os oes un, o'r sefydliadau arlwyo ar ystâd y Cynulliad nad yw ar hyn o bryd yn cynnig unrhyw gig/dofednod halal ar gyfer cwsmeriaid?*
4. *Os oes sefydliad arlwyo ar ystâd y Cynulliad sy'n cynnig cig/dofednod halal, nodwch a yw'r cynnyrch wedi'i nodi'n glir fel hynny ac ym mha ffordd (labelu, disgrifiadau bwydlenni ac ati)*

1. Yn y siop goffi, mae rhai o'r brechdanau sy'n cael eu prynu i mewn yn cynnwys cig halal ac yn cael eu labelu yn unol â hynny. Ar hyn o bryd, nid yw'r sefydliadau arlwyo eraill yn cynnig cig/dofednod halal fel opsiwn fel rhan o'r gwasanaethau a ddarperir o ddydd i ddydd. Pan fo cwsmeriaid yn gofyn yn benodol am gig halal, er enghraifft, ar gyfer digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar yr ystâd, bydd cig/dofednod halal yn cael ei archebu a'i ddarparu ar gyfer y digwyddiad hwnnw.
2. Nid oes un o'r sefydliadau arlwyo yn cynnig cig/dofednod halal yn unig i gwsmeriaid.


Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales


**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

3. Fel y nodwyd uchod, heblaw am y brechdanau sy’n cael eu prynu i mewn i'w gwerthu yn y siop goffi, ac oni bai ein bod yn derbyn ceisiadau penodol am gig/dofednod halal ar gyfer digwyddiadau, nid ydym ar hyn o bryd yn darparu'r cynnyrch hwn fel rhan o'r opsiynau dyddiol yn y bwyty a’r caffi.
4. Pe bai cig/dofednod halal ar gael mewn ymateb i geisiadau arbennig, gan gynnwys digwyddiadau fel y nodwyd uchod, byddai’r cynnyrch hynny yn cael ei nodi.

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF